

FFURFLEN MANYLION POLISI
POLICY IDENTIFICATION FORM /FRONTSHEET

<p>TEITL Y POLISI: <i>POLICY TITLE:</i></p>	<p><i>Y Polisi o ran Ymarfer Annheg</i></p>
<p>UWCH-GYFARWYDDWR A CHYFRIFOLDEB: <i>RESPONSIBLE EXECUTIVE DIRECTOR:</i></p>	<p><i>James Nelson</i></p>
<p>PWRPAS: <i>PURPOSE:</i></p>	<p><i>Mae Prifysgolion (a chyrff AU eraill) yn dyfarnu ein myfyrwyr ar sail eu hymdrechion eu hunain, a'u defnydd o'r sgiliau a'r ddealltwriaeth a meithrinwyd ganddynt yn ystod eu hastudiaethau yng Ngrŵp Llandrillo Menai. O ganlyniad, mae Grŵp Llandrillo Menai'n ymdrin yn ddifrifol iawn â honiadau o ymarfer annheg gan eu bod yn cynrychioli methiant i barchu cywirdeb a thegwch y broses asesu.</i></p> <p><i>Mae'n gyfrifoldeb ar fyfyrwyr ac aelodau staff i weithio gyda'i gilydd i sicrhau nad yw arfer annheg yn digwydd o ganlyniad i gamddealltwriaeth neu ddiffyg ymwybyddiaeth o'r manylrwydd sydd ei angen ar lefel AU.</i></p>
<p>EFFAITH AR DDWYIEITHRWYDD <i>IMPACT ON BILINGUALISM</i></p>	<p><i>Gweler yr Asesiad Effaith ar ddiwedd y ddogfen.</i></p>
<p>EFFAITH AR GYDRADDOLDEB <i>IMPACT ON EQUALITY</i></p>	<p><i>Gweler yr Asesiad Effaith ar ddiwedd y ddogfen.</i></p>
<p>EFFAITH AR GYNALIADWYEDD <i>IMPACT ON SUSTAINABILITY</i></p>	<p><i>Gweler yr Asesiad Effaith ar ddiwedd y ddogfen.</i></p>
<p>ARGYMHELLIAD: <i>RECOMMENDATION:</i></p>	<p><i>Cymeradwyo</i></p>
<p>CYFATHREBU <i>COMMUNICATION</i></p>	<p><i>Tîm Strategol, Porth y Grŵp</i></p>
<p>PWLLGOR / GRŴP MONITRO: <i>COMMITTEE / GROUP RESPONSIBLE FOR MONITORING:</i></p>	<p><i>Y Tîm Polisi CSSC Y Bwrdd</i></p>
<p>CYMERADWYWYD GAN (A'R DYDDIAD): <i>APPROVED BY (AND DATE):</i></p>	<p><i>Y Tîm Strategol –11/10/2021 CSSC – 03/11/2021 Y Bwrdd - 11/11/2021</i></p>
<p>DYDDIAD ADOLYGU <i>REVIEW DATE CYCLE:</i></p>	<p><i>Ddwywaith y flwyddyn</i></p>

[English text](#)

Y Polisi o ran Ymarfer Annheg ym maes Addysg Uwch

I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol?

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i ddysgwyr sy'n dilyn rhaglenni AU y mae un o'r sefydliadau dyfarnu AU a ganlyn wedi awdurdodi GLLM i'w darparu;

- Edexcel/Pearson
- Rhaglenni AU a ddilyswyd gan Brifysgol Bangor er mwyn i Grŵp Llandrillo Menai eu darparu

Dylai dysgwyr sy'n dilyn rhaglenni AU a ddyfernir gan sefydliadau eraill adolygu'r polisiau a'r gweithdrefnau sydd ar gael ar Amgylchedd Dysgu Rhithiol y Rhaglen, yn Llawlyfr y Rhaglen ac ar wefan y sefydliad dyfarnu.

Pwrpas y Polisi

Mae Prifysgolion (a chyrrff AU eraill) yn dyfarnu ein myfyrwyr ar sail eu hymdrechion eu hunain, a'u defnydd o'r sgiliau a'r ddealltwriaeth a meithrinwyd ganddynt yn ystod eu hastudiaethau yng Ngrŵp Llandrillo Menai. O ganlyniad, mae Grŵp Llandrillo Menai'n ymdrin yn ddifrifol iawn â honiadau o ymarfer annheg gan eu bod yn cynrychioli methiant i barchu cywirdeb a thegwch y broses asesu.

Mae'n gyfrifoldeb ar fyfyrwyr ac aelodau staff i weithio gyda'i gilydd i sicrhau nad yw arfer annheg yn digwydd o ganlyniad i gamddealltwriaeth neu ddiffyg ymwybyddiaeth o'r manylrwydd sydd ei angen ar lefel AU.

Datganiad Polisi

Mae'n ymarfer annheg i gyflawni unrhyw weithred a fydd yn golygu bod rhywrai yn cael mantais na chaniateir mohoni, iddynt eu hunain neu i rywun arall. Bydd hyn yn berthnasol os yw'r myfyriwr yn gweithio ar ei ben ei hun neu ar y cyd â rhywun arall/rhywrai eraill. Gall y weithred ddigwydd yn ystod neu mewn perthynas ag arholiad ffurfiol, darn o waith cwrs, neu unrhyw fath arall o asesiad a wneir er mwyn ennill cymhwyster.

Mae'r Grŵp yn disgwyl i bob myfyriwr fod yn gyfrifol am ddiogelwch ei waith ei hun a chymryd camau rhesymol i rwystro eraill rhag ei gopïo.

Dull Gweithredu

Mae Grŵp Llandrillo Menai yn ymrwymo i:

- sicrhau bod y Weithdrefn ar Ymarfer Annheg yn cael ei gweithredu mewn dull teg, cyson ac amserol;
- darparu gwybodaeth glir mewn perthynas â'r weithdrefn hon a'r diffiniad o ymarfer academiaidd annheg mewn llawlyfrau rhaglen ac ar Amgylchedd Dysgu Rhithwir y Myfyrwyr (Moodle);
- darparu mynediad i fyfyrwyr i ddeunyddiau a gwasanaethau ar-lein er mwyn ategu eu dealltwriaeth am sut i osgoi llên-ladrad;
- sicrhau ein bod yn cadw at egwyddorion cyfiawnder naturiol wrth weithredu'r weithdrefn hon.

Monitro a Mesur Effaith

Bydd nifer yr achosion o ymarfer annheg a'u difrifoldeb yn cael eu monitro gan y Cyrff Arholi Allanol a chan y Pwyllgor Ansawdd a Safonau ym maes Addysg Uwch.

Caiff y Weithdrefn ar Ymarfer Annheg ei monitro'n flynyddol gan y Pwyllgor Ansawdd a Safonau ym maes Addysg Uwch.

Cyhoeddi'r Polisi

Bydd y polisi hwn ar gael yn ddwyieithog i'r cyhoedd ar wefan y Grŵp a bydd ar gael i'r holl aelodau staff ar fewnwyd y Grŵp.

Cymeradwywyd y Polisi gan:

Dyddiad cymeradwyo'r Polisi: Awst 2016

Dyddiad Adolygu'r Polisi: Awst 2021

Oherwydd yr adolygiad: Awst 2023

1. Diffiniadau o Ymarfer Annheg

Yn yr atodiadau isod, ceir enghreifftiau penodol o'r mathau o ymddygiad y gellir eu diffinio'n ymarfer annheg. Dylid nodi nad yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr ac mae'r Grŵp yn cadw'r hawl i gynnwys mathau eraill o ymarfer annheg yn y weithdrefn, os yw o'r farn bod hynny'n briodol.

Llên-ladrad	<p>Diffinnir fel defnyddio heb eu cydnabod eiriau neu syniadau rhywun arall a'u cyflwyno i'w hasesu fel pe baent yn waith personol. Gall hyn gynnwys copïo, cyfieithu o un iaith i'r llall neu aralleirio. Mae'n cynnwys defnyddio dyfyniadau o waith cyhoeddedig rhywun arall, neu waith heb ei gyhoeddi, pa un ai o lyfrau, erthyglau, y rhyngwyd neu unrhyw fformat arall, heb ddefnyddio dyfynodau a'u cydnabod.</p> <p>Gall hefyd gynnwys defnyddio crynodebau o syniadau, safbwyntiau, diagramau, graffiau, darluniau, rhaglenni cyfrifiadur, canlyniadau labordy neu ganlyniadau arolwg heb gyfeirio at y person yn y testun ac at y ffynhonnell yn y llyfryddiaeth.</p> <p>Noder: Nid yw'r Grŵp yn derbyn diffyg dealltwriaeth o'r angen i gydnabod gwaith eraill fel amddiffyniad dilys mewn achos o ymarfer annheg.</p>
Cynllwynio â thrydydd parti i ysgrifennu darn o waith	<p>Mae hyn yn cynnwys gweithred lle bo trydydd parti yn cyflawni gwaith ar ran y myfyriwr pa un ai am arian neu beidio. Mae'r diffiniad o drydydd parti'n cynnwys myfyriwr arall, ffrind neu aelod o'r teulu ond os yw'n fyfyrwr arall ymddrinnir â'r ddau barti o dan o weithdrefn hon. Mae'r categori hwn hefyd yn cynnwys deunyddiau a gafwyd o gronfeydd traethodau ar y we neu asiantaethau tebyg.</p>
Aildefnyddio eich deunydd eich hun (hunan lôn-ladrad)	<p>Aildefnyddio, un ai'n rhannol neu'n llawn, waith a gyflwynwyd eisoes fel rhan o gais am gredyd academiaidd, oni bai bod y gwaith wedi'i gyfeirnoddi'n briodol neu fod y gwaith yn cael ei ailgyflwyno ar ôl cael ei fethu ac wedi cael ei awdurdodi gan dîm y rhaglen.</p>
Cydgynllwynio	<p>Pan fydd gwaith a wnaed gan eraill, neu gydag eraill, yn cael ei gyflwyno fel gwaith un person yn unig. Mae hyn hefyd yn wir pan fydd gwaith un unigolyn yn cael ei gyflwyno yn enw rhywun arall. Pan fydd yr awdur gwreiddiol yn ymwybodol o hyn, bernir bod y ddau barti ar fai.</p> <p>Ni ddylid cymysgu hyn â gweithio mewn grŵp pan roddir cyngor clir ar yr hyn a ganiateir i'w asesu. Os na nodir i'r gwrthwyneb dylai unrhyw waith a gyflwynir i'w asesu fod yn waith unigolyn yn hytrach na grŵp.</p>
Llunio data ffug	<p>Gwneud honiadau ffug ynglŷn â chynnal arbrofion, arsylwadau, cyfweiliadau neu ddulliau eraill o gasglu a dadansoddi data, neu weithredu'n anonest mewn unrhyw ffordd arall.</p>
Methu â chael caniatâd priodol i gynnal ymchwil	<p>Pan fo hyn yn ymwneud yn uniongyrchol ag astudiaethau myfyrywyr</p>
Dod ag unrhyw ddeunydd nas awdurdodwyd i'r ystafell arholiad	<p>a/neu gyfleusterau cysylltiedig, megis llyfr, llawysgrif, data neu bapurau rhydd, neu wybodaeth a gafwyd trwy unrhyw ddyfais electronig, neu unrhyw ffynhonnell wybodaeth anawdurdodedig. Ystyrir hyn yn drosedd hyd yn oed os na ddefnyddiwyd hwy i ennill mantais.</p>
Copïor hywun neu gyfathrebu ag unigolyn arall yn yr ystafell arholi	<p>a/neu gyfleusterau cysylltiedig heb ganiatâd goruchwyliwr yr arholiad.</p>
Cyfathrebu'n electronig â rhywun arall	<p>un ai o fewn neu'r tu allan i'r ystafell arholi heb ganiatâd goruchwyliwr yr arholiad</p>
Sefyll arholiad yn lle ymgeisydd arall	<p>neu ganiatáu i rywun arall sefyll arholiad yn eich lle chi.</p>
Cyflwyno sgrïpt arholiad fel pe bai'n waith gennyh chi	<p>er bod y sgrïpt yn cynnwys deunydd a luniwyd trwy ddulliau anawdurdodedig.</p>

2. Darganfod Ymarfer Annheg

Bydd arholwr mewnol neu allanol, neu unrhyw un arall, sydd yn ystod y cyfnod marcio neu wedyn, yn amau bod myfyriwr wedi ymarfer yn annheg yn cyflwyno adroddiad ar y mater i Arweinydd y Rhaglen.

Os posibl, rhaid wrth dystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r honiadau, e.e. mewn achos o lèn-ladrad gellir defnyddio system Turnitin i greu 'adroddiad gwreiddioldeb'. Er bod adroddiad gwreiddioldeb gan Turnitin yn gymorth i ddarganfod llên-ladrad dylid nodi nad yw ar ei ben ei hun yn brawf digonol o lèn-ladrad; mater o farn academiaidd yw pa un ai a oes llên-ladrad wedi digwydd neu beidio. (Gall canran uchel mewn adroddiad gwreiddioldeb ddigwydd pan nad oes llên-ladrad wedi digwydd, ac nid yw caran isel mewn adroddiad gwreiddioldeb yn profi nad oes llên-ladrad wedi digwydd.) Mae'n bosibl felly y bydd angen tystiolaeth ychwanegol.

Fodd bynnag, yn unol â'r Polisi Asesu ym maes Addysg Uwch, dylai'r marciwr ymchwilio ymhellach i adroddiad gwreiddioldeb sy'n nodi bod 20% neu ragor o'r gwaith yn debyg i waith arall.

Tra ymchwilir i'r honiad dylid rhoi marc sero (0%) am y gwaith sy'n cael ei ystyried. Os nad yw'n bosibl cwblhau'r ymchwiliad cyn cyfarfod bwrdd asesu yna bydd y marc 0 yn cael ei brosesu.

Os amheuir achos o ymarfer annheg, ond nid oes tystiolaeth bendant o'r drosedd, bydd angen cynnal cyfweiliad ymchwilio (gweler isod).

Os amheuir achos o gydgyllwynio, dylid cynnal trafodaethau cychwynnol ag arweinydd y rhaglen er mwyn sicrhau nad yw ystyr cydweithio wedi cael ei gam-ddeall. Lle caniateir gweithio mewn grŵp mae'n hanfodol bod myfyrwyr yn deall y rheolau ac, os na nodir i'r gwrthwyneb, bod unrhyw waith a gyflwynir i'w asesu i gael ei wneud ar sail unigol.

3. Cyfweiliad Ymchwilio

Os bydd y sawl sy'n marcio'n amau ymarfer annheg gellir cyfweiliad y myfyriwr a amheuir i benderfynu a oes achos i'w ateb. Mae'r cyfweiliad ymchwilio'n arbennig o bwysig pan na all marciwr ganfod tystiolaeth ddogfennol ddigonol i brofi'r honiad. Yn benodol, gall hyn fod yn wir lle amheuir bod twylllo cytundebol wedi digwydd h.y. bod traethawd wedi cael ei brynu neu wedi dod gan drydydd parti ond nad oes tystiolaeth ddigonol i brofi achos yn y lle cyntaf.

Dilynir y weithdrefn ganlynol os amheuir bod y math hwn o gamymddygiad wedi digwydd:

- dylai'r sawl sy'n marcio roi gwybod i Arweinydd y Rhaglen am ei amheuron/hamheuron. Os mai Arweinydd y Rhaglen yw'r sawl sy'n marcio bydd y mater yn cael ei drafod ag aelod arall o dîm y rhaglen;
- bydd Arweinydd y Rhaglen yn gofyn i aelod arall o staff, nad yw'n ymwneud â'r marcio ond sy'n meddu ar yr arbenigedd priodol (Rheolwr Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu'r Grŵp, y Rheolwr Datblygu Addysg Uwch neu'r Rheolwr Sicrhau Ansawdd fel arfer), a'r Cydlynnydd Sicrhau Ansawdd i gyfweiliad y myfyriwr;
- gwahoddir y myfyriwr i gyfarfod â'r aelod enwebedig a rhoddir cyfle iddo ef neu hi egluro sut y cafodd y darn o waith ei ddatblygu.

Dylid ei gwneud yn glir i'r myfyriwr ymlaen llaw nad rhan o'r broses asesu yw'r cyfarfod ond yn hytrach ei fod yn rhan o broses i benderfynu pa un ai a oes yma achos o ymarfer annheg. Dylid annog y myfyriwr i ddod ag unrhyw ddrafftiau blaenorol o'r aseiniad gydag hwy ac unrhyw nodiadau bras a wnaed wrth ei ddatblygu.

Argymhellir bod y pynciau canlynol yn cael eu trafod yn ystod y cyfarfod:

- y ffynonellau a ddefnyddiwyd gan y myfyriwr
- methodoleg
- y prosesau meddwl a arweiniodd at y casgliadau/canfyddiadau
- trafodaeth am y broses cynllunio a drafftiau
- y broses ddatblygu wrth ysgrifennu'r aseiniad, yn enwedig yr amserlen.

Dylid gwneud pob ymdrech i roi cyfle i'r myfyriwr ddangos mai hwy i a wnaeth y gwaith.

Os penderfynir o ganlyniad i'r cyfweiliad nad oes yma achos cychwynnol ni chymerir unrhyw gamau pellach o dan y Weithdrefn Ymarfer Annheg. Hysbysir y myfyriwr yn ysgrifenedig nad oes achos i'w ateb a bydd y gwaith yn cael ei farcio'n unol â'r drefn arferol.

Os penderfynir yn y cyfweiliad ymchwilio bod tystiolaeth o ymarfer annheg, rhaid trafod y mater gyda'r Cydlynnydd Sicrhau Ansawdd, a fydd yn dweud a ddylid ei drin fel amryfusedd bychan neu a ddylid ei roi ger bron y Panel sy'n ymdrin ag Ymarfer Annheg.

Os bydd y myfyriwr yn gwrthod dod i Gyfweiliad Ymchwilio neu'n gwrthod ymateb i'r cais (yn dilyn un nodyn atgoffa) bydd y Cyfarwyddwr Ansawdd a Chwricwlwm, ar sail argymhellion y marciwr a'r Panel Cyfweld, yn penderfynu a oes angen bwrw ymlaen â'r mater o dan y Weithdrefn Ymarfer Annheg.

Dylai rheolwr y rhaglen cadw cofnod ffurfiol o'r cyfweiliad ac anfon copi i'r CSA.

4. Mân Achos o Ymarfer Annheg

Os yw'r holl ffactorau canlynol yn berthnasol:

- i. Dyma'r tro cyntaf i'r myfyriwr ymddwyn yn annheg;
- ii. Mae'r drosedd wedi digwydd ar lefel 4*
- iii. Mae arwyddion bod yr ymarfer annheg wedi digwydd oherwydd diffyg ymarfer academaidd yn hytrach nag unrhyw gais bwriadol i gael mantais annheg.

*gellir eithrio myfyrwyr cysylltiol sy'n astudio modiwlau annibynnol ar lefelau uwch, neu fyfyrwyr sy'n astudio ar lefel uwch ac sydd wedi derbyn trosglwyddiad credyd yn sgil dysgu drwy brofiadau.

Gall y Panel Cyfweld benderfynu bod y digwyddiad i'w gofnodi fel mân achos o ymarfer annheg. Mewn achos o'r fath dylid cefnogi'r myfyriwr gyda'i w/gwaith ysgrifennu academaidd er mwyn sicrhau nad oes digwyddiad o'r fath yn codi eto a dylid cynnig cymorth i'r myfyriwr gan Arweinydd y Rhaglen. Gallai cymorth ychwanegol fod ar ffurf sesiynau ar sgiliau astudio academaidd dros gyfnod penodol o amser neu unrhyw ddull arall mae Arweinydd y Rhaglen yn ei ystyried yn briodol. Dylai'r myfyriwr gael ei hysbysu'n ffurfiol o'r ymarfer annheg a dylai'r camau ar gyfer sicrhau gwelliant gael eu hegluro wrtho/wrthi. Dylid sicrhau'n ogystal ei fod/bod yn ymwybodol yr ymdrinnir yn ffurfiol ag unrhyw ymarfer annheg pellach. Dylid nodir y ddigwyddiad ar eDRAC ag anfon hysbys i'r CSA. Dylid marcio'r gwaith yn unol â'r meini prawf asesu a'r cynllun marcio arferol gan anwybyddu'r rhannau hynny nad ydynt yn waith gwreiddiol gan y myfyriwr.

Rhaid hysbysu'r Cydlynnydd Sicrhau Ansawdd o bob achos y penderfynwyd eu bod yn achosion o amryfusedd bychan. Os bernir y dylid rhoi'r achos ger bron Panel sy'n ymdrin ag Ymarfer Annheg, bydd Arweinydd y Rhaglen yn hysbysu'r Cydlynnydd Sicrhau Ansawdd a fydd wedyn yn galw cyfarfod o'r Panel ac yn rhoi gwybod i'r myfyriwr yn ysgrifenedig.

5. Panel Ymarfer Annheg

Dylid anodi unrhyw dystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r achos yn glir a'i rhoi i'r Panel gan Arweinydd y Rhaglen ddim hwyrach na 10 diwrnod gwaith cyn y gwrandawriad. Dylai'r dogfennau hyn gynnwys Adroddiad Gwreiddioldeb Turnitin (os yw'n berthnasol), briff yr aseiniad (yn achos aseiniadau nad ydynt yn arholiadau) a chyfarwyddiadau'r arholiad (yn achos aseiniadau a arholir).

Bydd y Panel yn cynnwys:

- Cyfarwyddwr Ansawdd a Chwricwlwm (Cadeirydd y Panel).
- Reolwr Sicrhau Ansawdd y Grŵp (a all cadeirio pe bae angen)
- Rheolwr Llyfrgell a Thechnoleg Dysgu'r Grŵp (fel aelod annibynnol)

Aelod Wrth Gefn i sicrhau cworwm mewn achos o absenoldeb: Rheolwr Datblygiad AU y Grŵp; Rheolwr y Dysgu a'r Addysgu.

Y CSA a fydd yn bresennol trwy bob cam o'r panel a fydd yn rhoi arweiniad mewn perthynas â rheoliadau, polisiâu a gweithdrefnau'r Brifysgol/corff dyfarnu ac, yn ystod y drafodaeth, mewn perthynas â'r gosb i'w thraddodi (bydd rhaid ystyried unrhyw gynseiliau). Gall y Swyddog Gwella Ansawdd eistedd lle nad yw'r CSA yn bresennol.

Bydd y canlynol hefyd yn mynychu'r panel:

- Rheolwr y rhaglen a / neu enwebai (Y swyddog cyflwyno) a fydd yn cyflwyno'r achos yn erbyn y myfyriwr
- Rheolwr y Maes Rhaglen a all fod yn bresennol i gynorthwyo'r swyddog cyflwyno pe bae angen
- Y myfyriwr a all fod yng nghwmni cynrychiolydd

Yn unol â'r amseroedd a nodir yn adran 11 y polisi hwn, bydd y Cydlynnydd Sicrhau Ansawdd yn hysbysu'r myfyriwr a'r aelodau o ddyddiad, amser a lleoliad cynnal y Panel, gan ddarparu copïau o unrhyw ddogfennau a fydd yn cael eu hystyried. Rhoddir copi o'r weithdrefn i'r myfyriwr ac fe'i hysbysir o'i hawl i ddod â rhywun i'r gwrandawriad, i ddarparu tystiolaeth o unrhyw amgylchiadau lliniarol yn unol â'r Polisi a'r Weithdrefn o ran Amgylchiadau Lliniarol, i glywed yr holl dystiolaeth ac i alw a holi tystion. Os bydd y myfyriwr yn darparu tystiolaeth ddogfennol ychwanegol yn

y gwrandawriad, ni ellir derbyn y dystiolaeth honno heb ganiatâd penodol y Cadeirydd. Bydd gofyn i fyfyrwyr gysylltu'r Cydlynnydd Sicrhau Ansawdd i gadarnhau a fyddant yn dod i'r gwrandawriad ac a fyddant yn dod â rhywun gyda nhw.

Gofynnir i'r myfyriwr gadarnhau a yw'n dymuno i gyfarfod y panel gael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg. Os bydd angen darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i fodloni cais y dysgwr, hysbysir y dysgwr am hyn cyn cyfarfod y panel.

Diben y Panel fydd ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynir a phenderfynu, ar sail tebygolrwydd, a yw'r honiad wedi'i brofi, gan ddefnyddio'r broses isod:

- Bydd y Swyddog Cyflwyno (e.e. Arweinydd y Rhaglen) yn cyflwyno'r achos yn erbyn y myfyriwr, gan alw unrhyw dystion yn ôl yr angen. Bydd gan y Panel a'r myfyriwr yr hawl i ofyn cwestiynau i'r tystion. Fel arfer bydd y tystion yn gadael y cyfarfod ar ôl cael eu holi. Os bydd y Pwyllgor yn dymuno caniatáu i'r tystion aros drwy gydol y gwrandawriad bydd rhaid wrth ganiatâd y myfyriwr ar Swyddog Cyflwyno;
- Caiff y myfyriwr gyfle i gyflwyno amddiffyniad ac i alw unrhyw dystion y mae'n eu hystyried yn briodol.
- Bydd gan y Panel, y Swyddog Cyflwyno a'r myfyriwr yr hawl i ofyn cwestiynau i'r tystion hyn;
- Bydd gan y Panel a'r Swyddog Cyflwyno'r hawl i ofyn cwestiynau i'r myfyriwr;
- Gall y Panel a'r myfyriwr ofyn cwestiynau i'r Swyddog Cyflwyno;
- Bydd gan y myfyriwr ac unrhyw a ddaw gydag ef neu hi i'r gwrandawriad yr hawl i glywed yr holl dystiolaeth;
- Gall y Cadeirydd ofyn am gyfraniadau gan y sawl sydd wedi dod gyda'r myfyriwr;
- Wedi gwrandawrio ar yr holl dystiolaeth bydd y Swyddog Cyflwyno a'r myfyriwr yn gadael y gwrandawriad er mwyn i'r Panel ystyried ei ddyfarniad;
- Gwneir y penderfyniad ar sail tebygolrwydd ac er mwyn i'r achos gael ei brofi nid oes rhaid i'r Panel brofi bod y myfyriwr wedi bwriadu cymryd rhan mewn gweithred o ymarfer annheg. Fodd bynnag, gall diffyg bwriad i gamymddwyn yn academaidd fod yn berthnasol wrth ystyried cosb briodol; Cyn pennu cosb briodol gall y CSA roi gwybod i'r Panel am unrhyw achosion blaenorol perthnasol o Ymarfer Annheg;
- Dylid ystyried a fydd effaith niweidiol y datgeliad yn gorbwyso gwerth y dystiolaeth a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid rhyddhau'r wybodaeth;
- Os bydd y Panel yn dod i'r casgliad nad yw'r achos wedi'i brofi fe hysbysir y myfyriwr yn ysgrifenedig o'r penderfyniad a chaiff yr holl dystiolaeth am yr achos ei dileu o ffeil a chofnodion y myfyriwr;
- Os bydd y Panel yn barnu bod yr achos wedi'i brofi bydd yn pennu'r gosb ar sail difrifoldeb y drosedd gan roi ystyriaeth i'r cosbau a argymhellir isod ac unrhyw gynseiliau;
- Wrth bennu'r gosb bydd y Panel yn ystyried proffil marciau'r ymgeisydd ac unrhyw amodau a rheoliadau asesu ar gyfer y rhaglen astudio dan sylw;
- Ar gais aelodau'r Panel, y Swyddog Cyflwyno neu'r myfyriwr gall Cadeirydd y Panel ystyried gohirio'r gwrandawriad er mwyn casglu tystiolaeth bellach;

Os bydd myfyriwr yn dymuno apelio yn erbyn penderfyniad y Panel bydd rhaid iddo wneud hynny'n ysgrifenedig ac yn unol â'r rheoliadau a ddarparwyd gan y brifysgol/corff dyfarnu perthnasol.

Lle ofynnir i dystion fod yn bresennol, rhaid i'r holl bartïon darparu rhestr gyflawn o'r tystion i'r CSA o leaif 10 diwrnod gwaith cyn a panel

Efallai y bydd y Panel am ystyried y ffactorau ychwanegol hyn wrth bennu lefel y gosb:

- Mewn achos o lèn-ladrad, a gyflawnwyd y weithred yn fuan yn ystod cyfnod astudio AU gyda GLLM;
- Os digwyddodd yr ymarfer annheg mewn arholiad a fu'r weithred o fantais i'r myfyriwr;
- A oedd natur y drosedd yn dangos bwriad gwirioneddol i dwyllo'r sawl oedd yn marcio;
- A fu achosion blaenorol o gamymddwyn academaidd neu ysgrifennu academaidd gwael;
- Wrth bennu lefel y gosb efallai y bydd y panel am ystyried unrhyw amgylchiadau lliniarol y bydd y myfyriwr yn eu datgan, ar yr amod bod y myfyriwr yn darparu tystiolaeth ddogfennol briodol ar amser ac yn unol â'r Weithdrefn ar Amgylchiadau Lliniarol.
- Lle bo'n briodol gall y Panel ohirio eu penderfyniad hyd nes clywed penderfyniad Panel rhestredig Amgylchiadau Lliniarol.

6. Cosbau

Dylid defnyddio'r rhestr gosbau hon fel canllaw'n unig; nid yw'n rhestr gyflawn nac nid yw'r Panel wedi'i gyfyngu iddi.

Noder: Pan fydd cosb yn golygu bod yn rhaid ailgyflwyno gwaith, bydd y Bwrdd Arholi'n trin y gwaith a gyflwynir fel ymgais arall i ailsefyll, oni bai bod y Panel Ymarfer Annheg yn datgan i'r gwrthwyneb

Bydd y Panel yn pennu lefel y cap a roddir ar waith a ailgyflwynir e.e. 30% neu 40%.

Yn achos ailgyflwyno gwaith, bydd y Panel yn penderfynu a all y myfyriwr newid rhywfaint ar y gwaith a'i ailgyflwyno,

neu a fydd gofyn i'r myfyriwr gyflwyno darn newydd o waith.

Mân Droseddau		
Math o Ymarfer Anheg		Cosb Awgrymedig
1.	Copio ffynonellau heb ddefnyddio dyfynodau er bod cyfeirnodau wedi'u cynnwys yn y llyfryddiaeth neu'r rhestr gyfeiriadau (Bydd maint y rhannau a gopiwyd hefyd yn berthnasol wrth benderfynu a hon yn fân drosedd neu'n drosedd ddifrifol Fel arfer, os bydd y rhannau sydd heb eu cyfeirnodu'n uwch na 25% o'r gwaith, ymdrinnir â'r drosedd fel un ddifrifol.)	<ul style="list-style-type: none"> Rhybudd ffurfiol (nodi ar ffeil y myfyriwr) Dyfarnu 0% am yr asesiad gan ganiatáu ei ailgyflwyno am farc wedi'i gapio
2.	Cyflwyno gwaith a aseswyd eisoes ar gyfer asesiad arall un ai yn y Grŵp neu mewn sefydliad arall	<ul style="list-style-type: none"> Rhybudd ffurfiol (nodi ar ffeil y myfyriwr) Dyfarnu 0% am yr asesiad gan ganiatáu ei ailgyflwyno am farc wedi'i gapio
3.	Caniatáu i fyfyrwr arall gopïo gwaith a'i gyflwyno fel ei waith ei hun (ni chafodd y myfyriwr unrhyw fantais ariannol o hyn)	<ul style="list-style-type: none"> Rhybudd ffurfiol yn unig (nodi ar ffeil y myfyriwr)
4.	Cyfathrebu ag ymgeisydd arall mewn arholiad neu brawf yn y dosbarth heb unrhyw dystiolaeth o ennill mantais	<ul style="list-style-type: none"> Rhybudd ffurfiol yn unig (nodi ar ffeil y myfyriwr)

Troseddau Difrifol		
Math o Ymarfer Anheg		Cosb Awgrymedig
5.	Defnydd helaeth o ffynonellau nad ydynt yn cael eu cydnabod (trosedd gyntaf) (Byddai'r drosedd yn cael ei thrin fel un ddifrifol pe bai'r rhannau nad ydynt yn cael eu cydnabod yn fwy na 25% o'r gwaith.)	<ul style="list-style-type: none"> Rhybudd ffurfiol (nodi ar ffeil y myfyriwr) Dyfarnu 0% am yr asesiad gan ganiatáu ei ailgyflwyno am farc wedi'i gapio
6.	Hunan lôn-ladrad yn fwy na 25% o'r gwaith	<ul style="list-style-type: none"> Rhybudd ffurfiol (nodi ar ffeil y myfyriwr)
7.	Defnydd helaeth o ffynonellau nad ydynt yn cael eu cydnabod (ail drosedd)	<ul style="list-style-type: none"> Rhybudd ffurfiol (nodi ar ffeil y myfyriwr) Dyfarnu 0% am yr asesiad heb ganiatâd i'w ailgyflwyno
8.	Defnydd helaeth o ffynonellau nad ydynt yn cael eu cydnabod gyda thystiolaeth o fwriad i dwyllo (trosedd gyntaf)	<ul style="list-style-type: none"> Rhybudd ffurfiol (nodi ar ffeil y myfyriwr) Dyfarnu 0% am y modiwl heb ganiatâd i'w ailgyflwyno
9.	Defnyddio gwaith eraill (e.e. o fanciau traethodau neu gan fyfyrwyr eraill) a'i gyflwyno fel eich gwaith eich hun	<ul style="list-style-type: none"> Rhybudd ffurfiol (nodi ar ffeil y myfyriwr) Dyfarnu 0% am yr asesiad heb ganiatâd i'w ailgyflwyno
10.	Cyfathrebu ag ymgeisydd arall mewn arholiad neu brawf yn y dosbarth er mwyn ennill mantais	<ul style="list-style-type: none"> Rhybudd ffurfiol (nodi ar ffeil y myfyriwr) Dyfarnu 0% am yr asesiad gan ganiatáu ei ailgyflwyno am farc wedi'i gapio
11.	Dod ag unrhyw ddeunydd nas awdurdodwyd i'r ystafell arholiad, megis dyfeisiau electronig, llawysgrif, testun printiedig, cyfrifiannell, llyfr neu eiriadur neu anodi unrhyw offer a ganiateir er mwyn ennill mantais	<ul style="list-style-type: none"> Rhybudd ffurfiol (nodi ar ffeil y myfyriwr) Dyfarnu 0% am yr asesiad gan ganiatáu ailsefyll am farc wedi'i gapio

12	Caniatáu i fyfyrwr arall gopïo gwaith a'i gyflwyno fel ei waith ei hun (am fantais ariannol)	<ul style="list-style-type: none"> Rhybudd ffurfiol (nodi ar ffeil y myfyriwr) Dyfarnu 0% am yr asesiad heb unrhyw gyfle i'w ailgyflwyno. Os dyfarnwyd marc i'r asesiad eisoes mae gan y Panel yr hawl i ddiddymu'r marc yn unol â rheoliadau'r corff dyfarnu
13	Sefyll arholiad neu brawf dosbarth yn lle ymgeisydd arall neu ganiatáu i rywun arall sefyll arholiad yn eich lle chi (os yw'r ddau yn fyfyrwyr bydd dwy drosedd wedi digwydd)	<ul style="list-style-type: none"> Rhybudd ffurfiol (nodi ar ffeil y myfyriwr) Dyfarnu 0% am yr arholiad heb gyfle i ailsefyll a gwaharddiad o'r Coleg
14	Ffugio canlyniadau gwaith ymchwil neu brosiect	<ul style="list-style-type: none"> Rhybudd ffurfiol (nodi ar ffeil y myfyriwr) Dyfarnu 0% am yr arholiad heb gyfle i ailsefyll a gwaharddiad o'r Coleg

NODER: Bydd rhybudd ffurfiol yn cyd-fynd â'r holl gosbau uchod a gwneir cofnod o'r digwyddiad ar ffeil y myfyriwr ar eDRAC.

Nid yw'r gosb y gallai'r Panel ei chyflwyno wedi'i chyfyngu i'r enghreifftiau a nodir yn y canllawiau hyn.

7. Cysylltiad gyda Addasrwydd i Ymarfer

Gall unrhyw achos o gamymddwyn academiaidd, ni waeth pa mor ddifrifol, sydd wedi'i brofi mewn rhaglen broffesiynol cael ei gyfeirio gan y Panel at yr Arweinydd Rhaglen perthnasol

Os bydd ymchwiliad i honiad o gamymddwyn academiaidd yn cael ei gynnal ar adeg y Bwrdd Asesu perthnasol bydd y Bwrdd yn gohirio ystyried gwaith y myfyriwr hyd nes y bydd y Panel wedi gwneud ei benderfyniad. Mewn amgylchiadau o'r fath bydd marciau'r myfyriwr yn cael eu hystyried yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.

Os bydd achos o gamymddwyn academiaidd yn cael ei brofi ar ôl i farciau'r myfyriwr gael eu cyhoeddi bydd y Panel yn cyfeirio'r mater at y corff/sefydliad dyfarnu perthnasol.

8. Cefnogaeth i Fyfrwyr mewn Gwrandawiaadau

Mae'r adran hon yn berthnasol i bob gwrandawriad a gynhelir o dan y weithdrefn hon. Fodd bynnag, fel arfer ni fyddai disgwyl i fyfyrwr ddod â rhywun i'r gwrandawriad pe na bai'r drosedd yn ddifrifol a bwriad y cyfarfod fyddai cynghori yn hytrach na chosbi.

Gall y myfyriwr ddod â myfyriwr arall, ffrind, perthynas, aelod o staff GLLM, neu swyddog Addysg Uwch y Grŵp i'r gwrandawriad er cefnogaeth, neu unrhyw un arall sydd ei angen oherwydd anghenion personol e.e. gofalwr neu gyfieithydd. Fodd bynnag, ni all yr unigolyn hwn gael swyddogaeth gyfreithiol ac ni chaiff siarad ar ran y myfyriwr heb ganiatâd penodol y Cadeirydd, os na roddwyd rhybudd ymlaen llaw y bydd y myfyriwr yn cael ei gynrychioli (gweler isod). Os yw'r myfyriwr yn bwriadu dod â rhywun i'r gwrandawriad dylai hysbysu'r CSA o enw'r unigolyn ymlaen llaw gan nodi a oes ganddo/ganddi gymwysterau cyfreithiol neu os ydynt yn cynrychiolydd corff proffesiynol. Y myfyriwr fydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr unigolyn dan sylw yn ymwybodol o ddyddiad, amser a lleoliad y gwrandawriad ac yn cael copïau o'r dogfennau angenrheidiol.

Lle ofynnir i dystion fod yn bresennol, rhaid i'r myfyriwr darparu rhestr gyflawn i'r CSA o leaif 10 diwrnod gwaith cyn a panel

Os bydd myfyriwr yn dymuno cael ei gynrychioli gan rywun sydd â chymwysterau cyfreithiol neu gynrychiolydd o gorff proffesiynol mae'r Grŵp yn cadw'r hawl i gael ei gynrychiolydd cyfreithiol ei hun yn bresennol a rhaid i'r myfyriwr hysbysu'r CSA o'i fwriad o leaif bum niwrnod gwaith cyn y gwrandawriad. Bydd y ddau barti'n gyfrifol am eu costau cyfreithiol eu hunain a'r myfyriwr fydd yn gyfrifol am sicrhau bod y rhai sy'n ei gynrychioli'n ymwybodol o ddyddiad, amser a lleoliad y gwrandawriad ac yn cael copïau o'r dogfennau angenrheidiol. Dylid nodi na chaiff unrhyw un ddod gyda'r myfyriwr i'r gwrandawriad os gellir profi y gallai ennill mantais bersonol o wneud hynny e.e. myfyriwr arall sydd wedi torri gweithdrefnau'r Grŵp mewn modd tebyg.

9. Presenoldeb mewn Gwrandawiadau

Mae'r adran hon yn ymwneud â chyfweliadau ymchwilio academiaidd a mân achosion o ymarfer annheg ac achosion difrifol.

Os bydd myfyriwr yn cadarnhau y bydd yn dod i'r gwrandawriad ond yna, heb unrhyw ymddiheuriad na rheswm, yn peidio â gwneud hynny bydd y gwrandawriad yn parhau yn habsenoldeb. Os rhoddir rhesymau bydd y Cadeirydd yn penderfynu a yw'r achos i gael ei ohirio neu beidio.

Os na fydd myfyriwr yn gallu dod i wrandawriad am resymau eithriadol, e.e. myfyriwr rhyngwladol wedi dychwelyd adref am fod ei fisa wedi dod i ben, bydd rhaid iddynt hysbysu'r CSA ddim hwyrach na 5 diwrnod gwaith cyn y gwrandawriad. Os posibl, darperir cyfle i'r achos gael ei glywed drwy ddulliau electronig a / neu gwahoddir y myfyriwr i gyflwyno datganiad ysgrifenedig i'w ystyried gan y Panel.

Os bydd y myfyriwr yn gwneud cais am ohriad, gofynnir am dystiolaeth o amgylchiadau lliniarol i'w cyflwyno i'r Cadeirydd er cymeradwyaeth. Caniateir gohriad os bydd y Cadeirydd yn cymeradwyo hynny, ond unwaith yn unig y gellir gwneud hyn.

Os bydd myfyriwr yn rhoi gwybod na fydd yn dod i'r gwrandawriad neu os na dderbynnir ateb, bydd y gwrandawriad yn parhau yn ei absenoldeb.

10. Apeliadau

Os bydd myfyriwr yn dymuno apelio yn erbyn penderfyniad a'r ôl i'r Panel Ymarfer Annheg ymdrin â'r achos bydd rhaid iddynt gyflwyno cais ysgrifenedig llawn a fydd yn cyrraedd yr CSA ddim hwyrach na deg diwrnod gwaith o ddyddiad y llythyr i hysbysu'r myfyriwr am benderfyniad y Panel. Nid ystyrir bod hysbysiad syml o rybudd i Apelio a wneir gan yr ymgeisydd o fewn y terfyn amser uchod yn gyfwerth ag Apêl briodol ac ni chaiff ei dderbyn.

Ystyrir apeliadau am y rhesymau canlynol yn unig:

- afreoleidd-dra yn y modd y cynhaliwyd y gwrandawriad sy'n codi amheuaeth resymol y gallai'r penderfyniad fod yn wahanol pe bai heb ddigwydd;
- amgylchiadau personol eithriadol nad oeddent yn hysbys i dîm y rhaglen pan ystyriwyd achos y myfyriwr ac y gellir dangos eu bod yn berthnasol i'r ymarfer annheg. Rhaid i'r sawl sy'n apelio roi rheswm da pam na ddatgelwyd amgylchiadau personol o'r fath cyn y cyfarfod. Lle gallai ymgeisydd fod wedi rhoi gwybod am amgylchiadau eithriadol, ond na wnaeth hynny, ni all wedyn roi'r rhesymau hyn fel sail dros apelio.

Ar ôl derbyn apêl bydd Prifathro Cynorthwyol AU Grŵp Llandrillo Menai (fydd yn rhywun nad ydyw wedi ymwneud â'r achos o'r blaen) yn ymgynghori â Chadeirydd y Panel dan sylw, os yw hynny'n berthnasol i amgylchiadau'r achos.

Bydd yn ofynnol i Bennaeth Cynorthwyol (fydd yn rhywun nad ydyw wedi ymwneud â'r achos o'r blaen), wrthod apêl sy'n:

- seiliedig ar ffactorau a oedd yn hysbys i'r Panel pan benderfynwyd ar y gosb;
- cyflwyno gwybodaeth a oedd yn hysbys i'r myfyriwr, ac y gallasai fod wedi ei dwyn i sylw'r Panel cyn y cyfarfod.

Os caiff yr apêl ei derbyn fe ymdrinnir â hi o dan weithdrefn apelio'r corff dyfarnu.

11. Amserlen ar gyfer Paneli Ymarfer Annheg


Gwneir pob ymdrech i gydymffurfio â'r amserlenni hyn ond dylid nodi y gall amgylchiadau annisgwyl weithiau olygu na fydd y terfynau amser yn cael eu cadw.

AMSER (dyddiad hwyrach)	CAM GWEITHREDU	CYFRIFOLDEB
10 diwrnod gwaith cyn y gwrandawriad h.y. dyddiad y llythyr gan y Grŵp (i'w anfon drwy'r post neu drwy e-bost)	Hysbysu'r myfyriwr ar ddu a gwyn am yr honiad, dyddiad ac amser y gwrandawriad, trefniadau'r gwrandawriad a gofyn i'r myfyriwr gadarnhau ei ddewis iaith (y Gymraeg neu'r Saesneg).	Yr Cydlynnydd Sicrhau Ansawdd (CSA)
	Arweinydd Rhaglen i ddarparu tystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r achos i'r CSA	Arweinydd y Rhaglen
	Rhestr llawn o dystion i'w ddarparu i'r CSA	Swyddog Cyflwyno (gan aml pennaeth y rhaglen) a Myfyriwr
5 diwrnod gwaith cyn y gwrandawriad h.y. llythyr gan y Brifysgol (i'w anfon drwy'r post neu drwy e-bost)	Darparu'r dogfennau fydd yn cael eu hystyried yn y gwrandawriad i'r myfyriwr a'r Panel	CSA
5 diwrnod gwaith cyn y gwrandawriad	Hysbysu'r Grŵp a fydd y myfyriwr yn dod i'r gwrandawriad neu beidio, dewis iaith y myfyriwr (y Gymraeg neu'r Saesneg), ac a fydd yn dod â rhywun gydag ef neu hi a/neu'n cael ei gynrychioli'n gyfreithiol neu gan rywun o gorff proffesiynol.	Myfyriwr
	Os yw'r myfyriwr wedi gofyn am gynnal y cyfarfod yn Gymraeg a bod angen darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i fodloni'r cais hwn, hysbysir y dysgwr am hyn trwy neges e-bost.	CSA
5 diwrnod gwaith ar ôl y gwrandawriad h.y. dyddiad y llythyr gan y Grŵp (i'w anfon drwy'r post neu drwy e-bost)	Hysbysu'r myfyriwr yn ysgrifenedig o ganlyniad y gwrandawriad a'i hawl i apelio.	CSA
10 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad y llythyr i hysbysu'r myfyriwr o'r canlyniad	Cyflwyno cais ysgrifenedig llawn i'r CSA	Myfyriwr

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb


Cwblhawyd yr asesiad gan:	Gwennan Richards	Dyddiad:	20/01/2022
Cymeradwywyd yr asesiad gan:		Dyddiad:	

Ystyriaeth	Ymateb	Gofynion / rheoliadau arbennig
Pa grwpiau a warchodir a allai fod dan anfantais yn sgil y polisi neu'r broses?	Ni fydd unrhyw grwpiau a warchodir dan anfantais yn sgil y polisi hwn. Nod y polisi hwn yw sicrhau nad yw unrhyw fyfyrwr AU yng Ngrŵp Llandrillo Menai yn cael mantais na chaniateir mohoni, iddynt neu hunain neu i rywun arall.	
Pa grwpiau a warchodir a allai gael budd o'r polisi neu'r broses?	Bydd y polisi o fudd i'r holl grwpiau a warchodir am ei fod yn sicrhau nad yw unrhyw fyfyrwr AU yng Ngrŵp Llandrillo Menai yn cael mantais na chaniateir mohoni, iddynt neu hunain neu i rywun arall.	
A yw'r polisi'n hyrwyddo cydraddoldeb ac yn meithrin cysylltiadau da?	Ydy, mae'r polisi yn sicrhau y caiff yr holl fyfyrwyr AU eu trin yn deg ac yn gyfartal. Mae'r polisi yn caniatáu cefnogaeth i fyfyrwyr mewn gwrandawiadau	
A allai unrhyw ran o'r broses wahaniaethu'n anghyfreithlon?	Nid os cedwir yn llawn at y polisi	
A oes polisiâu eraill y mae angen eu newid er mwyn ategu effeithiolrwydd yr un hwn?	Na	
Casgliad	Parhau â'r polisi neu'r weithdrefn	

LLOFNODWYD:		Dyddiad:	20/01/2022
--------------------	---	-----------------	------------

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Cwblhawyd yr asesiad gan:	Gwennan Richards	Dyddiad:	20/01/2022
Cymeradwywyd yr asesiad gan:		Dyddiad:	

Ystyriaeth	Ymateb	Gofynion / rheoliadau arbennig	
Pa effeithiau cadarnhaol gaiff gweithredu'r polisi neu'r weithdrefn ar y defnydd o'r Gymraeg?	<p>Nod y polisi hwn yw sicrhau nad yw unrhyw fyfyrwr AU yng Ngrŵp Llandrillo Menai yn cael mantais na chaniateir mohoni, iddynt neu hunain neu i rywun arall. Yn y polisi ceir enghreifftiau penodol o'r mathau o ymddygiad y gellir eu diffinio'n ymarfer annheg a'r drefn i'w dilyn os amheuir bod gweithred annheg wedi'i chyflawni.</p> <p>Yn ôl eu hawliau dan Safonau'r Iaith Gymraeg, bydd gan unrhyw fyfyrwr sy'n destun unrhyw achosion fel y nodwyd yn y polisi, yr hawl i ymgymryd â'r rhain yn Gymraeg.</p> <p>Bydd y myfyrwyr hynny sydd wedi mynegi dymuniad i dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg, yn derbyn pob gohebiaeth sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn yn Gymraeg.</p>	Yn unol â Safonau'r Iaith Gymraeg (Safonau Darparu Gwybodaeth) wrth wahodd myfyrwyr i gyfarfod, megis cyfweiliad neu banel ymarfer annheg, rhaid i GLIM ofyn i'r myfyrwyr a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. Os bydd angen darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i fodloni cais y dysgwyr, rhaid rhoi gwybod i'r myfyrwr am hyn.	
Pa effeithiau negyddol gaiff gweithredu'r polisi neu'r weithdrefn ar y defnydd o'r Gymraeg?	Ni chredir y bydd y polisi'n cael unrhyw effaith negyddol ar y Gymraeg.		
A oes digon o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i weithredu'r polisi neu'r weithdrefn?	Oes, mae digon o staff sy'n siarad Cymraeg i sicrhau y gellir gweithredu'r polisi/gweithdrefnau yn Gymraeg. Os bydd myfyrwr yn gwneud cais i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfweiliad neu banel arfer annheg a bod aelodau di-Gymraeg yn bresennol hefyd, bydd tîm cyfieithu'r Grŵp yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.		
Os nad oes, pa gamau a gymerir i sicrhau bod digon o staff ar gael, ac erbyn pryd?	n/a		
A yw'r polisi neu'r weithdrefn yn cydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg/Strategaeth Iaith Grŵp Llandrillo Menai?	Y		
Casgliad	<p>Addasu'r polisi - argymhellir addasu'r polisi i adlewyrchu hawliau myfyrwyr dan safonau'r iaith Gymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg mewn unrhy gyfweiliad neu banel. (gweler Hysbysiad cydymffurfio, safonau 24 – 29)</p> <p>02/02/2022 – Addaswyd y polisi i ystyried yr uchod, parhau â'r polisi.</p>		
LLOFNODWYD:		Dyddiad:	20/01/2021

Asesiad o'r Effaith ar Gynaliadwyedd

Cwblhawyd yr asesiad gan:		Dyddiad:	
Cymeradwywyd yr asesiad gan:		Dyddiad:	

Ystyriaeth	Ymateb	Gofynion / rheoliadau arbennig
Sut fydd y polisi hwn yn effeithio ar strategaeth cynaliadwyedd y Grŵp?		
Casgliad		

LLOFNODWYD:		Dyddiad:	
--------------------	--	-----------------	--

FFURFLEN MANYLION POLISI POLICY IDENTIFICATION FORM /FRONTSHEET

<p>TEITL Y POLISI: <i>POLICY TITLE:</i></p>	<p><i>Unfair Practice Policy</i></p>
<p>UWCH-GYFARWYDDWR A CHYFRIFOLDEB: <i>RESPONSIBLE EXECUTIVE DIRECTOR:</i></p>	<p><i>James Nelson</i></p>
<p>PWRPAS: <i>PURPOSE:</i></p>	<p><i>Universities (and other HE awarding bodies) grant awards to our students based on their own achievement, drawing upon the skills and understanding they have acquired during their studies at Grŵp Llandrillo Menai. Consequently, Grŵp Llandrillo Menai treats all allegations of unfair practice seriously, as they represent a failure to respect the integrity and fairness of the assessment process.</i></p> <p><i>It is the responsibility of both students and staff to work together to ensure that incidents of unfair practice do not occur as a result of misunderstanding or lack of awareness of the rigour required at HE level.</i></p>
<p>EFFAITH AR DDWYIEITHRWYDD <i>IMPACT ON BILINGUALISM</i></p>	<p><i>Please refer to Impact Assessment at the end of the document</i></p>
<p>EFFAITH AR GYDRADDOLDEB <i>IMPACT ON EQUALITY</i></p>	<p><i>Please refer to Impact Assessment at the end of the document</i></p>
<p>EFFAITH AR GYNALIADWYEDD <i>IMPACT ON SUSTAINABILITY</i></p>	<p><i>Please refer to Impact Assessment at the end of the document</i></p>
<p>ARGYMHELLIAD: <i>RECOMMENDATION:</i></p>	<p><i>To approve</i></p>
<p>CYFATHREBU <i>COMMUNICATION</i></p>	<p><i>Tîm Strategol, Grŵp Portal</i></p>
<p>PWLLGOR / GRŴP MONITRO: <i>COMMITTEE / GROUP RESPONSIBLE FOR MONITORING:</i></p>	<p><i>Tim Polisi</i> <i>CSSC</i> <i>Board</i></p>
<p>CYMERADWYWYD GAN (A'R DYDDIAD): <i>APPROVED BY (AND DATE):</i></p>	<p><i>Tim Strategol – 11/10/2021</i> <i>CSSC – 03/11/2021</i> <i>Board – 11/11/2021</i></p>
<p>DYDDIAD ADOLYGU <i>REVIEW DATE CYCLE:</i></p>	<p><i>Bi-Annually</i></p>

HE Unfair Practice Policy

Who does this Policy Apply to?

This policy applies to learners undertaking HE programmes which GLLM have been validated to deliver by the following HE awarding organisations;

- HE programmes validated by Bangor University for delivery by Grwp Llandrillo Menai
- Edexcel/Pearson

Learners undertaking HE programmes awarded by other institutions should review the policies and procedures which are available in the Programme VLE or Handbook and awarding organisation website.

Purpose of the Policy

